



**Mynychwyr (drwy gysylltiad fideo):**

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Claire Morgan, Jayne Woods.

**Yn Bresennol (drwy gysylltiad fideo):**

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS),

**Ymddiheuriadau:** Dim

**1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi**

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i ail gyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (TFG), gan nodi bod AS yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant newydd.
- 1.2. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi cwblhau'r weithred i gylchredeg y Cylch Gorchwyl (TOR) i holl aelodau'r Bwrdd. Nododd fod y ddogfen a gylchredwyd yn cynnwys rôl goruchwyllo'r ymgynghoriad arfaethedig ar y nodau sy'n sail i'r model safoni a ddefnyddir i gynhyrchu'r canlyniadau wedi'u cyfrifo yr haf hwn a'r broses ar gyfer apelio yr haf hwn. O ystyried natur gyflym y gwaith, sy'n esblygu'n gyson mewn ymateb i bandemig COVID 19, roedd yn rhaid gwneud y penderfyniad i ymgynghori'n gyflym ac roedd yn enghraifft o ble roedd cael Grŵp Gorchwyl a Gorffen ystwyth yn ddefnyddiol iawn. Roedd mwyafrif aelodau'r Bwrdd wedi ymateb i gadarnhau eu bod yn fodlon â'r Cylch Gorchwyl a'r dirprwyaethau.
- 1.3. Roedd JN hefyd wedi cwblhau'r weithred i drefnu cyfarfodydd ar gyfer y dyfodol.

**Cam Gweithredu: CM i gysylltu â JN a rhoi nodyn i aelodau'r Pwyllgor Rheoleiddio**

**2. Diweddariad ar y gwaith hyd yma - Egwyddorion a'r Broses Apeliadau**

- 2.1. Amlinellodd JR y dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r model safoni ystadegol ar gyfer cyfrifo graddau a'r broses apelio. Bu'n trafod y ddogfen ymgynghori ddrafft. Byddai'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar bum 'nod' arfaethedig a ddatblygwyd trwy drafodaethau gyda CBAC. Nododd JR fod y dull ar gyfer ymgeiswyr preifat, gyda llawer o'r rhain yn ddysgwyr a addysgir gartref, yn anoddach ac y byddai'r ymgynghoriad yn ceisio barn. Roedd y materion hefyd yn cael eu trafod gyda Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr eraill. Roedd cyngor cyfreithiol yn cael ei gymryd drwyddo draw. Bu JR yn trafod pob un o'r nodau arfaethedig ac ymatebodd i gwestiynau TGF.

- 2.2. Esboniodd JR y byddai angen newidiadau i'r broses apelio gyfredol. Cynigiwyd y byddai apelïadau'n cael eu caniatáu ar y sail a oedd CBAC wedi dilyn y broses yn gywir. Bu trafodaeth ynghylch a allai apelïadau ddigwydd ar sail 'cyfiawnder naturiol'. Esboniodd JR fod CBAC yn bwriadu monitro canlyniadau anghyson neu annisgwyl ac y byddai'n ailwrio data o'r fath gyda chanolfannau cyn gweithredu arno.
- 2.3. Amlinellodd JR y broses ymgynghori. Roedd disgwyl i ddrafft olaf yr ymgynghoriad fynd at gyfreithwyr, cyfieithu, aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, CBAC, Llywodraeth Cymru ac Estyn ar 17 Ebrill (gyda'r nos) i gael ymatebion erbyn 21 Ebrill. Y cynllun oedd cyhoeddi'r ymgynghoriad ar 28 Ebrill am 2 wythnos. Roedd fersiwn Cyfeillgar i Bobl Ifanc hefyd yn cael ei chynhyrchu. Byddai'r ymgynghoriad yn cael ei lansio trwy ddwy weminar. Y targed oedd adolygu ymatebion yn fewnol a chyhoeddi adroddiad penderfynu ddiwedd mis Mai i gyd-fynd â'r dyddiad olaf i ganolfannau gyflwyno data canlyniadau a ragwelir i CBAC. Yna byddai'r newidiadau gofynnol i'r amodau rheoleiddio yn cael eu gwneud, ni fyddai angen ymgynghori ymhellach.

### 3. Cofrestr Risg COVID 19

- 3.1. Roedd cofrestr risg benodol wedi'i chreu a'i rhannu gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Cynigiodd DJ y dylai'r risgiau corfforaethol gael eu hadolygu gan y prif Fwrdd a Phwyllgorau priodol a bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn canolbwyntio ar y risgiau rheoliadol. Gofynnodd DJ a oedd unrhyw risgiau ychwanegol wedi'u cynnig.
- 3.2. Roedd aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn fodlon ar y cyfan â'r risgiau a nodwyd. Awgrymwyd efallai y bydd angen ystyried y risgiau ar gyfer cyfres arholïadau 2020/21 yn fwy manwl. Cytunodd JR gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gwahodd swyddogion i gyfarfod ffrwd waith o'u rhaglen 'parhad dysgu'. Trafodwyd y risgiau i CBAC a'r sefyllfa pe na fyddai'n bosibl dyfarnu graddau a gyfrifwyd. Gofynnodd aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd pwysau i ystyried cyfres arholïadau hydref yng Nghymru - ar hyn o bryd nid dyna oedd yr achos. Nodwyd y byddai swyddogion yn datblygu'r risgiau ymhellach a byddai'r rhain yn cael eu rhannu gyda'r prif Fwrdd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

### 4. Cyfathrebu

- 4.1. Nid oedd nifer yr ymholïadau mor fawr ag y bu, roedd y ffocws cyfredol ar ymholïadau UG ac A2. Gofynnodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd y Gweinidog dan bwysau i ailagor ysgolion cyn gwyliau'r haf. Pe bai hyn yn digwydd, teimlwyd y byddai hynny ar gyfer carfannau cyfyngedig.

### 5. Unrhyw Fater Arall

- 5.1. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu ac am eu cyfraniad i'r cyfarfod. Diolchodd aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i swyddogion am eu gwaith caled a'u llongyfarch ar y ddogfen ymgynghori ddrafft.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 22 Ebrill 2020 12pm**